

Childnet International

Digiduck's BIG Decision



Written by **Lindsay Buck**, *Childnet International*
Illustrated by **Ciara Flood**

Un noson gynnes yn yr haf, roedd Harri'r Hwyaden yn ei ystafell. Roedd e wedi gorffen ei waith cartref ac yn mwynhau chwarae ar y rhyngrwyd cyn mynd i'r gwely.





Ffrindiau'r Fferm oedd ei hoff wefan. Gallai chwarae gemau a siarad â'i ffrindiau. Dyna hwyl! Roedd llawer o anifeiliaid yn hoffi chwarae ar y Fferm, gan gynnwys ffrindiau gorau Harri o'r ysgol.

Ping aeth sgrîn Harri a gwelodd fod ganddo neges newydd oddi wrth ffrind.
“Dyna gyffrous!” meddyliodd. Agorodd e’r neges a chwerthin.



Roedd rhywun wedi gwneud llun o Meic.mochyn yn edrych yn wirion iawn. “Dyna ddoniol!” chwerthinodd Harri. “Rhaid i mi ddangos y llun yma i’m ffrindiau.”



Cyn iddo allu anfon y llun at unrhywun, galwodd Mami Hwyaden i fyny’r grisiau, “Amser gwely, cariad! Golcha dy blu, neidia i’r gwely ac mi fydda i yno mewn chwinciad chwannen.”


Teimlai Harri'n gysglyd, felly ddadleuodd e ddim, doedd e ddim eisiau bod yn rhy flinedig ar gyfer parti Mochyn.mawr yfory. "Mi wna i anfon y llun yn y bore," penderfynodd. Cyn bo hir roedd e'n cysgu'n drwm.
Tywyllodd yr awyr a disgleiriodd y sêr. Yr unig sŵn yn y lle oedd sŵn Mr a Mrs Hwyaden yn chwyrnu.
Yn sydyn, llenwodd yr ystafell â golau rhyfeddol.

Daeth fflach llachar a sŵn uchel

wheeeeee

a dihunodd Harri gan eistedd i fyny yn ei wely!



Edrychodd mewn syndod wrth i belen fawr o blu saethu allan o'r sgrîn a rholio ar hyd y llawr.



Roedd Harri yn edrych ar hen dylluan, un llwyd o'i gorryn i'w sawdl. " Y Dylluan_Doeth," meddai'r dylluan, gan sbio dros ei sbectol ac estyn ei adain i'w gyfarch.



"Oooo! Mae glanio bob tro'n peri trafferth i mi," mwmiodd y cwlwm o blu wrth iddo sefyll yn syth a'i ddwstio ei hun.

“Rwy’n dy adnabod di!” ebychodd Harri.
“Ti sydd yn gyfrifol am wefan y Fferm.”
Gwenodd y Dylluan_Doeth a dweud, “Rydw i yma am reswm pwysig iawn. Rwyt ti’n ystyried anfon y llun yna, felly rwy’n mynd i ddangos i ti beth allai ddigwydd os wnei di hynny.”




Doedd dim amser i ofyn i’r dylluan am beth yn y byd yr oedd e’n sôn!



Cododd y dylluan Harri i fyny ac hedfanodd y ddau i’r tywyllwch, drwy amser, i’r dyfodol…

Ar ôl taith anesmwyth, glanion nhw tu allan i fwthyn Dilys-Dafad. Edrychodd Harri tu mewn a gweld ei ffrindiau i gyd gyda'i gilydd.



Roedd Beti.Buwch wedi dod â gêm roedd pawb eisiau ei chwarae.


"Pam nad ydw i yno?" gofynnodd Harri'n ddryslyd. "Rydyn ni bob tro'n chwarae gyda'n gilydd."
"Yn anffodus dwyt ti ddim wedi cael dy wahodd," atebodd y Dylluan_doeth.

“Ar ôl i ti anfon y llun, daeth Dilys-Dafad o hyd i Meic.mochyn yn crio ar yr iard. Roedd hi mor drist i weld Meic.mochyn mor ddigalon, yn enwedig gan bo’r llun wedi dod oddi wrthyt ti Harri. Rydych chi i fod yn ffrindiau.”




“Ond dim ond jôc oedd e!” meddai Harri wedi’i syfrdanu. Cododd y Dylluan_Doeth ef a bant â nhw.

Nesaf, hedfanon nhw ar draws cae a hofran uwchben ysgubor. Roedd DJ-Daf y ci yn chwarae ym mharti Meic.mochyn.



“Dydw i ddim yno chwaith,” sylweddolodd Harri.
“Yn anffodus, newidiodd Meic.mochyn ei feddwl,” meddai’r Dylluan_Doeth. “Roedd pawb yn yr ysgol yn galw enwau arno ar ôl gweld ei lun ac roedd DJ-Daf y ci yn flin iawn dy fod wedi ei anfon.”



“O,” mwmiodd Harri, “roeddwn i’n edrych ymlaen at y parti.”
Nodiodd y Dylluan_Doeth ei ben a bant â nhw.
Edrychai’r lle yma’n gyfarwydd iawn.
“Dyna fy nhŷ i!” gwaeddodd Harri.



Drwy'r ffenest, gwelodd Harri ef ei hun yn eistedd wrth fwrdd. O'i flaen roedd cacen hyfryd, liwgar gyda chanhwyllau arni. Ond, roedd y cadeiriau eraill i gyd yn wag.





"Fy mhenblwydd yw hi, ble mae fy ffrindiau i gyd?" criodd Harri, wrth i ddagrau syrthio i lawr ei foch.



Roedd y Dylluan_Doeth yn gwybod bo Harri wedi gweld digon. Lapiodd ei adenydd o'i amgylch a bant â nhw.




“Ac nid dyna’i diwedd hi chwaith,” meddai’r Dylluan_Doeth. “Chwarddodd pobl am ben Meic.mochyn am amser hir achos roedd ei lun ar y rhyngrwyd. Roedd dy ffrindiau’n poeni y byddet ti’n gwneud hwyl am eu pennau hwythau hefyd.”



Ar y siwrne nôl drwy amser, roedd Harri druan yn teimlo’n drist ac yn ddryslyd. Roedd angen help arno, felly esboniodd y Dylluan_Doeth bopeth iddo.

“Dechreuodd y cyfan ar ôl i ti anfon y llun yna at dy ffrindiau. Roedd pawb yn yr ysgol wedi ei weld erbyn amser cinio. Roedd Meic.mochyn yn torri’i galon.”

Deallodd Harri yn sydyn petai'n anfon y llun y gall hyn achosi trafferth mawr. "Doeddwn i ddim yn meddwl fyddai ots gan unrhywun. Dim ond eisiau gwneud i fy ffrindiau chwerthin oeddwn i. Weithiau rydyn ni'n dweud a gwneud pethau dwl... ond dydw i byth yn bwriadu bod yn gas," sibrydodd.



Nôl yn ei ystafell, dringodd Harri i'w wely a dywedodd y Dylluan_Doeth wrtho'n dyner, "Dwi'n gwybod hynny, ond yn anffodus doedd dy ffrindiau di ddim."



“Harri,” meddai’r Dylluan_Doeth, “rwyt ti’n hwyaden hyfryd ac yn ffrind da. Mae’r rhyngrwyd yn le bendigedig i gael hwyl, ond mae’n rhaid ymddwyn yn yr un ffordd â’r byd go iawn. Dwed bethau caredig wrth dy ffrindiau a gwna benderfyniadau synhwyrol.”

A gyda hynny, diflannodd y Dylluan_Doeth.
Cododd yr haul a dihunodd Harri.
“Y llun!” cofiodd.



Rhuthrodd ar draws yr ystafell ac roedd y neges yno, fel yr oedd y noson gynt. Roedd Harri wrth ei fodd! Sgipiodd a chanu, “Rwy’n gallu gwneud y peth iawn!”



“Ond beth wnawn ni? Wrth bwy ddylwn ni ddweud?” gofynnodd Mami Hwyaden.
“Rhaid i ni ddweud wrth wefan Ffrindiau’r Fferm!” atebodd Harri’n hapus.




Cafodd Mami Hwyaden wared â’r llun a’i anfon yn ôl at y Dylluan_Doeth. Gwenodd Harri, byddai’r Dylluan_Doeth mor falch ohono.

Roedd parti Meic.mochyn ar ôl ysgol yn wych ac fe fwynheuodd Harri yn fwy na gwyddai unrhywun. Daeth â'i gamera a chymryd llu o luniau. Cytunodd pawb eu bod yn fendigedig.




Roedd Harri'n gwybod ei fod wedi cael ail gyfle ac fe addawodd i wneud ei orau glas i ofalu am bobl eraill ar y rhyngrwyd.



Wrth iddo rannu ei luniau gyda'i ffrindiau, edrychodd ymlaen yn eiddgar at yr holl bethau byddai ef a'i ffrindiau yn mwynhau eu gwneud gyda'i gilydd o hyn ymlaen.

Talk about the story



For parents and carers

Keeping children safe online

Children love using technology and are learning to navigate websites, online games and consoles, and touch screen technology like iPads and smartphones from a young age. Children need support in these environments, to get the best out of using the internet right from the start.

Where do I start?

The best way to keep your family safe online, and to understand your children's internet use, is to use the internet together. Be positive and embrace the technologies that your children enjoy using, and look out for any safety features that may be available.

Should I set any rules?

Creating a family agreement is a useful way to establish your expectations regarding online activities. It might include time spent online, sites that can be visited, and behaviour expected; remember, what's right and wrong offline is also right and wrong online.

How can I supervise my child?

Placing your computer or laptop in a busy part of the house can make it easier for you to be involved in your child's technology use. Portable devices, for example smartphones, iPod Touch, games consoles and tablets can still be supervised and used where you can see them.

How much time is too much time?

There are some strategies that can be used to help manage time spent online, such as agreeing time limits or using time limiting tools, designating weekly times to use the internet together, or removing portable devices from your child's bedroom at night to avoid tiredness.

Are there tools to help?

Your internet service provider, and your mobile phone operator, will provide free filters to help block age inappropriate content for children. The websites of device manufacturers (e.g. games consoles) also outline the controls to which you have access. Parental controls are a great help, but not a complete solution, and work best in combination with supervision and engagement, to help your children understand how to stay safe online.

What advice can I give my child?

Education is the best tool that a child can have, so discuss the importance of telling an adult immediately if someone, or something, upsets them online. Other immediate strategies to deal with unwanted content or contact could include; switch the screen off, close the laptop, exit the website, or turn the iPad or phone over and put it down. It is also important that your child realises that other internet users may not be who they say they are and that 'friends' made online are still strangers, so all personal information should be kept safe.

What games are ok for my child to play?

There are many different online games and playing experiences, e.g. computers, consoles, internet games and apps. Gaming may be the first way that your child encounters life online. Some games however are for older audiences and contain language or images that are not suitable for children. Therefore it is important that the games your children play are the correct age rating, which is determined by the game's content.

Playing games yourself can be fun and will also enable you to identify the safety features provided, such as reporting to a moderator, and help you identify whether in-app adverts are displayed or purchasing is allowed. You can disable 'in-app' purchasing on a number of devices within the settings.

Where can I report?

Reports can be made to websites through safety/help centres and moderation services. If you are suspicious about the behaviour of others online, reports can be made to CEOP and inappropriate media content, online and offline can be reported via Parentport. Criminal content online can also be reported to the IWF.

For the full advice, visit childnet.com/parents-and-carers.

Childnet

Childnet International is a UK-based charity working in partnership with others around the world to help make the internet a great and safe place for children and young people. Since January 2011, Childnet has formed part of the UK Safer Internet Centre and was an original member of the UK Council for Child Internet Safety (UKCCIS).

Childnet focuses on education, awareness, and policy, for a range of audiences – children and young people, parents and carers, those working with children, and those providing the internet services that they use. Our education work in schools aims to enable children of all ages to use interactive technologies safely and responsibly.

For more information and advice, please visit **www.childnet.com**

UK Safer Internet Centre

Childnet International is a partner in the UK Safer Internet Centre with the South West Grid for Learning and the Internet Watch Foundation. This project is co-funded by the European Union through the Safer Internet plus programme.

For more information, please visit **www.saferinternet.org.uk**

Microsoft

Learning how to be a good friend online is now a key part of a young person's development. Parents play an important role in teaching kids how to safely navigate the many positive opportunities the Internet and new technologies provide. *Digiduck's Big Decision* will help you talk with young children about how their actions online – even in fun – can affect others. This tender tale of a young duckling makes a strong point about how to be considerate online.

Microsoft is pleased to support the publication by Childnet International of *Digiduck's Big Decision* and its contribution to the online safety of families everywhere.

For advice on how to help children and families stay safer online, please visit:

- The Microsoft Family Safety Center: **aka.ms/Family_Safety_Center**
- Safer Families in the UK: **www.microsoft.com/uk/saferfamilies**

Kim Sanchez, Director of Online Safety

